
**Cronfa Gyfunol Cymru
Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau**

1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017

RHAGAIR

Cefndir

1. Sefydlwyd Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) ar 1 Ebrill 2017 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf). Darparodd y Ddeddf wahaniad cyfreithiol ffurfiol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru a chreu corff newydd, sef Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cronfa Gyfunol Cymru yn dal y cronfeydd ar gyfer y canlynol:
 - Llywodraeth Cymru;
 - Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - Swyddfa Archwilio Cymru; ac
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
2. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn awdurdodi taliadau allan o'r Gronfa. Mae pob un o'r pedwar corff a restrir uchod yn gallu tynnu cronfeydd i lawr o'r Gronfa, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â Chynnig Cyllidebol a gymeradwywyd. Y cyfanswm a awdurdodwyd gan Gynnig Cyllidebol i'w dynnu i lawr o'r Gronfa yn 2016-17 oedd £13,817,025,000 (yn 2015-16 roedd yn £13,641,301,000).

Cwmpas y Cyfrif

3. Mae'r Cyfrif hwn wedi'i baratoi o dan Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif yn dangos taliadau i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys ei Mawrhydi, o dan y Ddeddf honno.
4. Mae'r Gronfa'n cael symiau gan Swyddfa Cymru sydd wedi'u pleidleisio gan Senedd y DU. Mae derbyniadau a dderbynnir gan y cyrff uchod nad awdurdodir eu defnyddio i gefnogi eu gwariant hefyd, yn rhinwedd Adran 120(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn daladwy i'r Gronfa.
5. Gwneir taliadau allan o'r Gronfa os ydynt wedi'u codi ar y Gronfa trwy unrhyw ddeddfiad, neu os ydynt wedi'u hawdurdodi gan gynnig cyllidebol a basiwyd yn y Cynulliad. Caniateir pasio cynigion cyllidebol mewn perthynas â phersonau perthnasol, sef y rhai a grybwyllir ym mharagraff 1 uchod. Rhaid cael cymeradwyaeth i dynnu cronfeydd oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adrannau 124 a 129 o'r Ddeddf.

Swyddog Cyfrifyddu

6. Ar 6 Chwefror 2017 daeth Shan Morgan yn Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu yn lle Syr Derek Jones KCB.

Derbyniadau a Thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru

7. Dengys y cyfrifon hyn y trafodiadau sy'n ymwneud â'r dibenion statudol a nodir uchod. Roedd y Gronfa wedi dwyn ymlaen falans o £1,466,000 ar 31 Mawrth 2016, gyda chyfanswm derbyniadau o £13,636,136,000 yn cael eu talu i mewn a thaliadau o £13,637,239,000 yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, gan adael y Gronfa gyda balans cau ar 31 Mawrth 2017 o £363,000. Yn ystod 2015-16 roedd y derbyniadau a dalwyd i mewn i'r Gronfa yn gyfanswm o £14,634,370,000 gyda thaliadau o £14,633,703,000 allan o'r Gronfa.

Archwilio

8. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Gronfa'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa'n ymwybodol ohoni.
9. Mae'r Cyfrif yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2017

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

1. Mae Adran 132(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif o'r taliadau i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac allan ohoni. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail arian parod a rhaid iddynt gyflwyno trafodiadau Cronfa Gyfunol Cymru yn briodol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017. Mae adran 132(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copi ardystiedig o'r cyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Nodir cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2017

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safon uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal mewn perthynas â Chronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) gan ddiogelu ar yr un pryd y cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt, sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg mewn perthynas â'r Gronfa.

Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus y bwriedir iddi: nodi a blaenoriaethu'r risgiau i weithrediad effeithiol y Gronfa; gwerthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu; a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 a hyd at gymeradwyo'r cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM.

Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

Mae gweithrediad y Gronfa'n cael ei lywodraethu gan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n nodi'r amodau ar gyfer taliadau i'w gwneud allan o'r Gronfa a symiau i'w talu i mewn iddi. Rhaid i gymeradwyaethau i dynnu ar y Gronfa gael eu cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Gweinidogion yn atebol am y Gronfa, ac mae ceisiadau am dynnu arian allan yn cael eu gwneud ar ran Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o dan awdurdod cynigion cyllidebol sy'n cael eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn unol â deddfiad perthnasol. Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r Gronfa. Felly, mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu a llofnodi cyfrifon y Gronfa.

Ni all Llywodraeth Cymru, fel gweinyddwr, dynnu cronfeydd ond gyda chymeradwyaeth Archwilydd Cenedlaethol Cymru (Deddf Llywodraeth Cymru Adranau 124 a 129). Rhaid i'r Archwilydd roi cymeradwyaeth i dynnu os bydd y cais yn ymwneud â swm dilys a godir ar y Gronfa gan unrhyw ddeddfiad (tâl uniongyrchol) neu os yw'r swm y gofynnir amdano wedi'i awdurdodi neu os bernir ei fod wedi'i awdurdodi gan gynnig cyllidebol gan y Cynulliad at ddibenion bodloni gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Caiff Archwilydd Cenedlaethol Cymru hefyd roi cymeradwyaeth i dynnu mewn perthynas â swm sydd wedi'i dalu i mewn i'r Gronfa trwy gamgymeriad.

Cyn y gellir rhyddhau unrhyw arian o'r Gronfa, rhaid i'r Gweinidogion ofyn am gymeradwyaeth i dynnu, a rhaid i Archwilydd Cenedlaethol Cymru roi'r gymeradwyaeth honno. Mae adran 129 yn caniatáu i'r Gweinidogion ac Archwilydd Cenedlaethol Cymru gytuno ar ffurf ceisiadau o'r fath. Wrth ganiatáu cymeradwyaeth o'r fath i dynnu, nid yw Archwilydd Cenedlaethol Cymru yn y bôn, ond yn dod i farn ynghylch a yw'r awdurdod statudol (gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, gymeradwyaeth cynnig cyllidebol) yn bodoli i wneud taliadau o'r fath. Nid yw'r broses hon yn gyfystyr â rhagarchwiliad llawn o'r swm y gofynnir amdano.

Mae gweithrediad y Gronfa'n dibynnu ar systemau craidd rheolaeth ariannol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei swyddogaethau cyfrifyddu a thalu ar ran Gweinidogion Cymru, a thrwy hynny, ar y rheolaethau sydd ar waith o amgylch y systemau hynny. Er mwyn adolygu'r amgylchedd rheoli rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm uwch-reolwyr sy'n arwain y pedwar grŵp yn Llywodraeth Cymru gwblhau holiadur rheolaeth fewnol a Datganiad o Sicrwydd i roi eu hasesiad imi o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu grwpiau yn flynyddol. I'r perwyl hwn, rwyf wedi cael sicrwydd

boddhaol gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant mewn perthynas â'r systemau a'r gwasanaethau cyllid a chorfforaethol ynghylch effeithiolrwydd y systemau a'r gwasanaethau sydd o fewn cyfrifoldeb ei Grŵp ac sy'n systemau a gwasanaethau y mae gweinyddu'r Gronfa'n dibynnu arnynt.

Nodir dull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn polisi rheoli risg a dogfennau cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae risgiau'n cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar wahanol lefelau yn y sefydliad. Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol trosfwaol a allai fod wedi atal neu lesteirio'r sefydliad rhag gweinyddu'r Gronfa yn effeithiol gan gydymffurfio â'r rheolau ac roedd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r Gofrestr Risg o bryd i'w gilydd.

Mewn perthynas â'r cyrff eraill a ariennir trwy'r Gronfa Gyfunol, rwyf yn dibynnu ar eu Swyddogion Cyfrifyddu i gadw systemau effeithiol o reolaeth fewnol mewn perthynas â thrafodiadau i dalu i mewn i'r Gronfa neu i dynnu ohoni ac i sicrhau bod gallu i reoli risg mewn ffordd briodol a chymesur yn eu sefydliad. Yn arbennig, rwyf yn dibynnu ar y rheolaethau mewnol a weithredir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros ei gyflogres mewn perthynas â'r swyddogion hynny y mae costau eu cyflog yn cael eu talu trwy'r Comisiwn ond sy'n cael eu talu gan y Gronfa fel ffurf o daliadau uniongyrchol ar y Gronfa. Yn dilyn diwedd y flwyddyn rwyf wedi ceisio a chael sicrwydd gan Glerc Comisiwn y Cynulliad ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bod rheolaethau mewnol yn bodoli ac yn gweithio'n effeithiol mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gronfa.

Llywodraethu Gwybodaeth

Ni ddelir unrhyw wybodaeth y mae materion llywodraethu gwybodaeth yn berthnasol iddynt. O ganlyniad, nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno ynghylch y mater hwn.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth gan gynnwys y system rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r Gronfa. Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru, rwyf yn derbyn sicrwydd gan sbectrwm eang o weithgareddau ac mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith Archwilwyr Mewnol a hefyd y swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf hefyd yn derbyn sicrwydd gan ymatebion rheoli ar faterion a nodwyd gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cenedlaethol Cymru) yn ei adroddiadau. Rwyf wedi cael fy nghynghori ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae gan Lywodraeth Cymru Wasanaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'n cynnal rhaglen lawn o waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar y cynnydd o ran rhoi'r cynllun archwilio hwn ar waith ac roeddwn yn cyfarfod â hi yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod gweithgarwch archwilio a materion penodol ym maes rheolaeth fewnol. Yn ei Hadroddiad Sicrwydd Blyneddol, rhoes Pennaeth Archwilio Mewnol "sicrwydd rhesymol" ar weithrediad y fframwaith llywodraethu, rheolaeth a rheoli risg.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r gwaith o gydgysylltu cynlluniau archwilio'n dal i fynd rhagddo, gydag aseiniadau penodol ac adolygiadau ad hoc yn cael eu cynnal yn llwyddiannus.

O ran y cyrff eraill sydd wedi'u cyfuno yn y Gronfa, rwyf yn dibynnu ar eu Swyddogion Cyfrifyddu i gynnal eu hadolygiad eu hunain o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant o fewn eu sefydliadau eu hunain, gyda chymorth y mathau o sicrwydd sydd ar gael iddynt ac rwyf wedi ceisio

cadarnhad a chael cadarnhad bod ganddynt sicrwydd digonol ar effeithiolrwydd eu systemau eu hunain o lywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i weithrediad y Gronfa.

Ar sail fy adolygiad o reolaethau mewnol a'r holl wybodaeth arall sydd ar gael imi, rwyf yn fodlon bod gan y Gronfa reolaethau priodol yn eu lle yn ystod y flwyddyn i gefnogi cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru dros reoli'r Gronfa, ac eithrio mewn perthynas ag awdurdodi taliadau a wnaed i Archwilydd Cenedlaethol Cymru trwy'r Gronfa Gyfunol yn Ebrill 2016, fel y nodir yn Nodyn 4.

Cyn i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ddod i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2014, roedd yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol, o dan baragraff 1 o atodlen 3 i'r Ddeddf honno, benderfynu ar y trefniadau ar gyfer talu Archwilydd Cenedlaethol Cymru, ac wedyn eu cymeradwyo. Er hynny, fel y digwyddodd, hepgorwyd y gofyniad hwn. Roedd cronfeydd yn cael eu tynnu o hyd i dalu tâl Archwilydd Cenedlaethol Cymru fel cynt cyn i Ddeddf 2013 ddod i rym. Cafodd y trefniadau eu rheoleiddio gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2016. Felly, er bod y taliadau a wnaed yn cydymffurfio â rhwymedigaethau contractiol a oedd yn ddyledus i Archwilydd Cenedlaethol Cymru, roedd y cyllid a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y taliad a wnaed yn Ebrill 2016 yn "afreolaidd" oherwydd absenoldeb ail-wneud trefniadau tâl Archwilydd Cenedlaethol Cymru gan y Cynulliad. Am y rheswm hwn, mae cyfrifon y Gronfa am y flwyddyn yn dod 31 Mawrth 2017 yn cael eu hamodi gan ei archwilydd allanol.

O ganlyniad i'r taliad afreolaidd a nodir yn Nodyn 4 i Gyfrifon y Gronfa ac a ddisgrifir uchod, mae camau wedi'u cymryd i ymchwilio i sut y digwyddodd hyn a beth y mae angen ei wneud i'w atal rhag digwydd eto. Cafwyd cyfarfod o'r partïon sy'n cael taliadau trwy'r Gronfa i drafod y rheolaethau a'r prosesau angenrheidiol, ac rwyf wedi cael fy modloni gan y partïon hynny y bydd y camau a gynigir yn atal hyn rhag digwydd eto.

O'm hadolygiad fy hun o'r materion y mae angen eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant hwn, rwyf yn fodlon, ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, fod system gadarn ar gyfer fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol yn bodoli. Bu iddynt gefnogi cyflawni diben y Gronfa a diogelu cronfeydd cyhoeddus yr oeddwn i, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae'r materion llywodraethiant a rheolaeth hyn yn cydymffurfio â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru Trysorlys Ei Mawrhydi.

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2017

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Priod gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddir o dan y ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf o'r farn bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer y farn archwilio amodol ar reoleidd-dra.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn yr adroddiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cronfa Gyfunol Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodir yn adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a bod yr arian hwnnw y mae'n ofynnol ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i dalu i mewn i'r Gronfa honno a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar yr wybodaeth a gefais yn ystod cyflawni fy archwiliad, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sy'n ymddangos yn berthnasol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif a'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau Cronfa Gyfunol Cymru yn briodol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddir o dan y ddeddf honno.

Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra

Fel y nodir yn fy Adroddiad isod, ni chafodd taliad mis Ebrill 2016 o £16,743 i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thaliad cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru a chostau cysylltiedig, ei wneud yn unol â'r awdurdodau sy'n rheoli taliadau o'r fath o Gronfa Gyfunol Cymru fel y nodir yn Adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gan fod y trafodyn hwn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- ac eithrio'r taliad afreolaidd o £16,743 a nodwyd yn y paragraff uchod, roedd y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â'r awdurdodau a nodwyd yn Adrannau 124 neu 130 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- mae'r arian sy'n ofynnol i'w dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru wedi'i dalu i mewn i'r Gronfa honno; ac
- ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod, mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i mae'r wybodaeth yn y Rhagair a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol rwyf yn adrodd i chi os digwydd y canlynol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM; neu
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad ar amodi fy marn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol hyn

Mae'r Adroddiad hwn yn esbonio'r sail ar gyfer amodi fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol Cronfa Gyfunol Cymru 2016-17.

Mae Nodyn 4 i'r datganiadau ariannol yn cofnodi cyflog, cyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef £201,000 yn 2016-17 sy'n cael eu talu gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Comisiwn'). Mae'r Comisiwn yn tynnu cyllid i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru i wneud y taliadau hyn.

Ym mis Mai 2016 cafodd taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â chyflog yr Archwilydd Cyffredinol eu gohirio dros dro pan ddaeth yn amlwg bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi methu bodloni'r trefniadau deddfwriaethol sy'n ofynnol ar gyfer ei gydnabyddiaeth o dan y darpariaethau trosiannol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Cafodd yr amryfusedd ei nodi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i unioni ar 14 Gorffennaf 2016, yn dilyn ymgynghori ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, y Prif Weinidog a Swyddfa Archwilio Cymru, pan wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru drefniadau o dan Adran 7(6) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i gymeradwyo parhad taliadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru drefniadau cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol cyn deddfiad Deddf Archwilio (Cymru) 2013. Fodd bynnag, roedd darpariaethau trosiannol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ailgymeradwyo'r trefniadau hyn yn ffurfiol ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog. Ni chafodd y gofynion hyn eu bodloni tan 14 Gorffennaf 2016 pan wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Prif Weinidog, drefniant o dan Adran 7(6) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i gymeradwyo parhau taliadau i'r Archwilydd Cyffredinol ar yr un telerau ac amodau a fodolai eisoes.

O ganlyniad, nid oedd awdurdod dyledus ynghlwm wrth y taliadau i gyllido cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru a chostau cysylltiedig £196,000 a £200,000 a wnaed yn 2014-15 a 2015-16 yn y drefn honno gan Gronfa Gyfunol Cymru i'r Comisiwn. Mae'r taliadau hyn y tu allan i gwmpas fy marn ar ddatganiadau ariannol 2016-17.

Fodd bynnag, cafodd taliad mis Ebrill 2016 o £16,743 i'r Comisiwn mewn perthynas â chydabyddiaeth i'r Archwilydd Cyffredinol a chostau cysylltiedig ei wneud cyn yr ailgymeradwyo

ar 14 Gorffennaf 2016. Yn hynny o beth ni chafodd ei wneud yn unol â'r awdurdodau sy'n rheoli taliadau o'r fath o Gronfa Gyfunol Cymru fel y nodir yn Adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gan fod y trafodyn hwn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, rwyf wedi amodi fy marn ar reoleidd-dra.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau na fydd trafodion afreolaidd o'r fath yn digwydd eto, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

28 Medi 2017

**CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
AR 31 MAWRTH 2017**

	nodyn	2016-17 £000	2015-16 £000
<u>Derbyniadau</u>			
Derbyniadau o Swyddfa Cymru o dan Adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006		13,525,626	13,392,591
Derbyniadau Ardrethi Annomestig	5	82,786	173,281
Prif ad-daliadau benthyciadau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol	6	91	79
Cynllun Ymadael HRAS	10	-	919,000
Derbyniadau eraill	2	27,633	149,419
Cyfanswm Derbyniadau		13,636,136	14,634,370
<u>Taliadau</u>			
Symiau a awdurdodwyd o dan gynigion cyllidebol y Cynulliad	3	13,569,761	13,527,473
Taliadau Uniongyrchol:			
Cyflogau, costau cysylltiedig a phensiynau	4	707	682
Treuliau swyddogion canlyniadau yn etholiadau'r Cynulliad	8	6,704	-
Ad-daliadau Prifswm a Llog y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol i Swyddfa Cymru	6	1,745	1,745
Taliadau Ardrethi Annomestig gan Weinidogion Cymru	5	31,295	158,849
Cynllun Ymadael HRAS	10	-	919,000
Ildio derbyniadau a ddynodwyd o dan Adran 120(3) o Ddeddf 2006 i'r Ysgrifennydd Gwladol	2	27,027	25,954
Cyfanswm y Taliadau		13,637,239	14,633,703
Gostyngiad/cynnydd net ym malans y Gronfa		(1,103)	667
Balans a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill		1,466	799
Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth		363	1,466

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 11 -16 yn rhan o'r cyfrif hwn

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
28 Medi 2017

Nodyn 1

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae balansau i Lywodraeth Cymru ac oddi wrthi'n cael eu datgelu yn Nodyn 9 i helpu i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

Nodyn 2

DERBYNIADAU ERAILL

Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Dynodi Derbyniadau) 2007 yn dynodi rhai derbyniadau (derbyniadau dynodedig). O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i Weinidogion Cymru dalu i'r Ysgrifennydd Gwladol symiau sy'n gyfartal â symiau'r derbyniadau dynodedig. Mae Adran 120(6) o'r Ddeddf yn darparu bod symiau y mae ar Weinidogion Cymru eu hangen i wneud taliadau o dan y gorchymyn hwn yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2016-17 £000	Derbyniadau a gafodd eu hildio i'r Ysgrifennydd Gwladol 2016-17 £000	Derbyniadau a delir i mewn i'r gronfa 2015-16 £000	Derbyniadau a gafodd eu hildio i'r Ysgrifennydd Gwladol 2015-16 £000
Llywodraeth Cymru	27,490	27,027	148,721	25,954
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	-	-	-	-
Swyddfa Archwilio Cymru	143	-	698	-
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-	-	-	-
Cyfanswm y Derbyniadau Dynodedig	27,633	27,027	149,419	25,954
Cyfanswm y Derbyniadau heb eu Dynodi	-	-	-	-
CYFANSWM	27,633	27,027	149,419	25,954

Yn ystod 2016-17 talodd Llywodraeth Cymru swm o £463,000 draw i'r Gronfa, ac mae'r swm wedi'i gynnwys o fewn cyfanswm y derbyniadau o £27,490,000 a delir i mewn i'r gronfa gan Lywodraeth Cymru, ac fe dalodd Swyddfa Archwilio Cymru swm o £143,000 ar draws. Mae hyn yn arian dros ben sydd heb ei wario ar gyfer 2015-16 a derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd ar gyfer 2015-16.

Ni thalodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eu priod gronfeydd o £236,000 ac £36,000. Barnwyd bod y rhain yn cael eu tynnu yn erbyn grant awdurdodedig 2016-17.

Nodyn 3

MATERION A AWDURDODWYD O DAN GYNIGION CYLLIDEBOL

Mae Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei basio o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y cyfnod hwn o'r cyfrif cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol: Gynnig y Gyllideb Flynyddol 2016-17 (GEN-LD 10600) fel y'i diwygiwyd gan Gynigion y Gyllideb Atodol 2016-17 (GEN-LD 10676 a GEN-LD 10922).

Talwyd y symiau canlynol allan o'r Gronfa o dan awdurdod Cynigion y Gyllideb. Gweler hefyd Nodyn 7, sy'n rhoi manylion symiau a dynnwyd i lawr ac sydd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2017.

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Llywodraeth Cymru	13,506,990	13,470,703
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru	51,800	46,373
Swyddfa Archwilio Cymru	6,728	6,146
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,243	4,251
CYFANSWM	13,569,761	13,527,473

Nodyn 4

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG Â PHENSIYNAU 2016-17

	Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm
	Llywyddion £000	Dirprwy Lywyddion £000	Comisiynydd Safonau £000	Archwilydd Cyffredinol Cymru £000	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru £000	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus £000	
Cyflogau	136	77	17	153	25	144	552
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	13	9	1	20	2	19	64
Costau Pensiwn	16	12	-	28	-	35	91
CYFANSWM	165	98	18	201	27	198	707

Safodd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd o'r neilltu ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, a daeth eraill i'r swyddi yn eu lle ym Mai 2016. Cafodd y Llywydd Ymadawol: y Fonesig Rosemary Butler, DBE; lwfans ailsefydlu a gynhwysir yn ffigur cyflogau'r Llywyddion.

Nodyn 4 (parhad)

CYFLOGAU, COSTAU CYSYLLTIEDIG PHENSIYNAU 2015-16

	Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru			Swyddfa Archwilio Cymru		Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Cyfanswm
	Y Llywydd	Dirprwy Lywydd	Comisiynydd Safonau	Archwilydd Cyffredinol Cymru	Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus	
	£000	£000		£000	£000	£000	
Cyflogau	96	81	19	153	25	143	517
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	12	9	1	20	2	17	61
Costau Pensiwn	23	19	-	27	-	35	104
CYFANSWM	131	109	20	200	27	195	682

Yn Ebrill 2016 gwnaeth Comisiwn y Cynulliad gais am daliad o £16,743 o Gronfa Gyfunol Cymru. Cafodd y cais ei gymeradwyo gan swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol, a'i dalu o Gronfa Gyfunol Cymru. Gan nad oedd y taliad hwn yn cydymffurfio â'r awdurdodau diwygiedig sy'n llywodraethu taliadau o'r fath gan Gronfa Gyfunol Cymru fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, nid oedd yn cydymffurfio ag Adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Archwilydd Cenedlaethol Cymru wedi amodi ei farn am y cyfrifon ar y sail hon.

Cafodd dau daliad dilynol o'r Gronfa mewn perthynas â chyflog yr Archwilydd Cyffredinol eu hatal gan Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol. Cafodd yr amryfusedd ei gywiro ar 14 Gorffennaf 2016, yn sgil ymgynghori ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Prif Weinidog Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, pan wnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru drefniadau o dan Adran 7(6) o Ddeddf Archwilio Cymru (Cymru) 2013 i gymeradwyo'r taliadau i Archwilydd Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal nid oedd taliadau o £200,000 yn 2015-16 a £196,000 yn 2014-15 i ariannu taliad cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol, er y gofynnwyd amdanynt yn briodol gan y Cynulliad ac er i Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol eu cymeradwyo, yn cydymffurfio â Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru, nid oeddent yn cydymffurfio ag adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae manylion pellach i'w cael yn yr Adroddiadau taliad cydnabyddiaeth yng Nghyfrifon blyneddol y cyrff ar gyfer 2016-17, y mae pob un ohonynt wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nodyn 5

ARDRETHI ANNOMESTIG

Mae Gweinidogion Cymru yn cael ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu oddi wrth dalwyr ardrethi gan Awdurdodau Bilio neu sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru gan dalwyr ardrethi ar y rhestr ganolog ardrethi. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ailddosbarthu'r cyfraniadau i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl (18 oed neu drosodd) ym mhob ardal weinyddol (Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2016-17, Adran 4.1). Mae'r ardrethi annomestig felly'n cael eu cyfuno a'u hailddosbarthu. Mae'r ffordd y mae'r pwll yn gweithredu'n cael ei llywodraethu gan Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a'r rheoliadau a wneir o dan adran 141 o'r Ddeddf honno. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhaid i incwm ardrethi annomestig gael ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru ac mae unrhyw wariant annomestig cysylltiedig yn dâl uniongyrchol ar y Gronfa.

Gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, er mwyn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau, caniateir i'r awdurdodau lleol wrthbwysu'r ardrethi annomestig y maent yn eu casglu yn erbyn yr arian y mae arnynt ei angen, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau o un flwyddyn i'r llall wrth benderfynu ar faint o Grant Cynnal Refeniw y mae ei angen mewn unrhyw flwyddyn benodedig. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 017 cyfanswm gros y cyfraniadau ardrethi annomestig i'r gronfa oedd £982,962,000 (2015-16 £971,611,000). Yn ystod yr un cyfnod daeth taliadau arian parod ardrethi annomestig i £977,000,000, gan gynnwys £928,150,000 i lywodraeth leol (2015-16 £956,000,000 a £889,080,000).

Mae'r taliadau a wnaed trwy'r Gronfa Gyfunol - £31,295,000 (2015-16 £158,849,000) yn daliadau i'r Awdurdodau Lleol a thalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2015-16 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig yr awdurdodau lleol a gostyngiadau yng ngwerthoedd ardrethol talwyr ardrethi'r rhestr ganolog. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfanswm taliadau i Lywodraeth Cymru o £197,000 (2015-16 £20,821,000) i gwmpasu taliadau a wnaed ganddynt yn 2016-17 i dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ostyngiadau mewn gwerthoedd ardrethol.

Mae Taliadau i'r Gronfa - £82,786,000 (2015-16 £173,281,000) yn gyfraniadau o dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog a derbyniadau ychwanegol o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol cyfraniadau ar gyfer 2015-16 a'r blynyddoedd blaenorol ar ôl cael hawliadau archwiliedig yr awdurdodau lleol.

Cynhwysir gwybodaeth bellach am ardrethi annomestig yn Adroddiad a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2016-17 a Chyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru) 2016-17.

Nodyn 6

Y GRONFA BENTHYCIADAU CENEDLAETHOL

Mae ad-dalu llog i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn dâl ychwanegol ar y Gronfa. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw darparu ar gyfer ad-dalu elfen prifswm y benthyciad, at ddibenion gweinyddol mae ad-dalu'r prifswm hefyd yn pasio trwy'r Gronfa. Yn ystod 2016-17 cafodd y Gronfa £91,000 (2015-16 £79,000) gan Lywodraeth Cymru i dalu elfen taliadau'r prifswm. Talodd y Gronfa gyfanswm o £1,745,000, £1,655,000 yn ymwneud â llog (2015-16 £1,745,000 a £1,667,000 yn eu trefn) i Swyddfa Cymru.

Nodyn 7

SYMIAU A DYNNEWYD A HEB EU GWARIO A SWM DROS BEN INCWM DROS SYMIAU A AWDURDODWYD

Isod nodir y symiau a dynnwyd i lawr ac a dderbyniwyd gan gyrff a gynhwysir gan y Gronfa ond heb eu gwario ar 31 Mawrth 2017, a derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd sy'n ad-daladwy i'r Gronfa, isod:

Llywodraeth Cymru

Adroddiad a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2016-17 am y flwyddyn yn dod i ben am y flwyddyn yn dod i ben

31 Mawrth 2017 nodwyd y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £749,000
derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Cafodd y derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd am 2015-16 o £463,000 eu had-dalu i'r Gronfa yn ystod 2016-17.

Gweler hefyd Nodyn 9.

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddodd Cyfrif Adnoddau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £74,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Y cyllid dros ben a oedd heb ei wario ar gyfer 2015-16 oedd £236,000. Bernir bod y rhain wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2016-17.

Swyddfa Archwilio Cymru

Adroddodd cyfrif blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario – £495,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £dim

Y cyllid dros ben a oedd heb ei wario ar gyfer 2015-16 oedd £143,000. Fe'i had-dalwyd i'r Gronfa yn 2016-17.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Adroddodd cyfrif blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017 y symiau canlynol sy'n ddyledus i'r Gronfa:

Tâl-dros-ben cyllid a dynnwyd ond heb ei wario - £34,000
Derbyniadau sy'n uwch na'r incwm a awdurdodwyd – £5,000

Y cyllid dros ben a oedd heb ei wario ar gyfer 2015-16 oedd £36,000. Bernir bod y rhain wedi'u tynnu yn erbyn grantiau awdurdodedig 2016-17.

Nodyn 8

TREULIAU SWYDDOGION CANLYNIADAU YN ETHOLIADAU'R CYNULLIAD

Treuliau'r swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiad Llywodraeth Cymru ar 6 Mai oedd 2016 oedd £6,704,000 (o hyn roedd £3,882,615 yn ymwneud â thaliadau post). Ar 31 Mawrth roedd Llywodraeth Cymru yn dal heb dynnu £420,279 i dalu treuliau ac ildio taliadau dros ben o £46,480, fel y nodir yn Nodyn 9.

Nodyn 9

BALANS LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r cyfrifon ar gyfer y Gronfa hon yn cael eu paratoi ar sail arian parod o dan Adran 132 (1) o'r Ddeddf. Pe bai'r cyfrif hwn ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru yn cael ei baratoi ar sail adnoddau, byddai'r fantolen yn cynnwys dyledwr i Lywodraeth Cymru fel isod, gan adlewyrchu trosglwyddiadau sy'n deillio o weithgarwch 2016-17 a oedd yn dal heb eu gwneud ar 31 Mawrth 2017.

	31 Mawrth 2017 £000	31 Mawrth 2016 £000
Cyllid a dynnwyd ond heb ei wario	749	463
Derbyniadau Dynodedig	2,341	2,169
Treuliau swyddogion canlyniadau heb eu tynnu i lawr	(420)	-
Tâl-dros-ben treuliau swyddogion canlyniadau a dynnwyd	46	-
	<hr/> 2,716 <hr/>	<hr/> 2,632 <hr/>

Nodyn 10

CYNLLUN YMADAEL HRAS

Yn sgil cytundeb rhwng Trysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, ymadawodd yr 11 o Awdurdodau Tai Lleol sy'n cadw stoc yng Nghymru â system hanesyddol y Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS).

O dan y cytundeb hwn â Thrysorlys EM bu angen i Awdurdodau Tai Lleol eu prynu eu hunain allan o HRAS ar gost o £919m y bu angen i'r Awdurdodau Tai Lleol ei fenthyg oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mynnodd Trysorlys Ei Mawrhydi fod yr holl drafodiadau'n digwydd ar un diwrnod. Ar 2 Ebrill 2015 trosglwyddwyd £919,000,000 i Gronfa Gyfunol Cymru ac ymlaen i Swyddfa Cymru.

Atodiad

WELSH CONSOLIDATED FUND

ACCOUNTS DIRECTION GIVEN BY HM TREASURY IN ACCORDANCE WITH SECTIONS 132(2) AND (3) OF THE GOVERNMENT OF WALES ACT 2006

1. The account of payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years shall properly present those payments.

2. When preparing the account of the payments into and out of the Welsh Consolidated Fund for the financial year ended 31 March 2008 and subsequent financial years the Welsh Ministers shall comply with cash (receipts and payments) accounting principles and the account will contain the following:

- A Foreword (explaining the background and scope of the account);
- A Statement of Accounting Officer's Responsibilities;
- A Statement on Internal Control;
- A Receipts and Payments Account; and
- Such notes as are required to ensure a proper understanding of the account, including an explanation of the movement on financial year-end balances.

3. This direction shall be reproduced as an appendix to the statement of account.



DAVID WATKINS
Head of the Financial Reporting Policy Team, HM Treasury

04 January 2007